# PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD DYDD GWENER, 29 IONAWR 2021

**Presenoldeb:** Gareth Griffith (Cadeirydd)
Richard Dew (Is Gadeirydd)

**Cynghorwyr Gwynedd:** Anne Lloyd Jones, Gareth A Roberts, John Pughe Roberts, Paul Rowlinson ac Owain Williams

**Cynghorwyr Môn**: John Griffith, Kenneth P Hughes a Robin Williams

**Swyddogion:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol (CG), Dewi Jones (Prif Swyddog Cynllunio (CSYM), Rebeca Jones (Rheolwr UPCC – (UPCC), Heledd Jones (Arweinydd Tîm UPCC – UPCC) a Robyn Jones (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (CSYM))

**Eraill a wahoddwyd:**

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones a'r Cynghorydd Richard Owain Jones

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 4 Medi 2020 fel rhai cywir.

## 5. CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL (CCA) I'W MABWYSIADU: NEWID DEFNYDD CYFLEUSTERAU A GWASANAETHAU CYMUNEDOL,SAFLEOEDD CYFLOGAETH AC UNEDAU MANWERTHU

Cafwyd cyflwyniad gan Heledd Jones yn gosod allan taith y CCA hyd yma. Nodwyd fod y cyfod ymgynghori cyhoeddus wedi cymryd lle rhwng Hydref a Thachwedd 2020.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus, derbyniwyd 10 sylw unigol (rhain i'w gweld yn atodiad 1 o'r adroddiad). Nodwyd fod yna gopi cyflawn o'r Canllaw wedi ei gynnwys yn Atodiad 2, sydd wedi ymgorffori rhai o'r newidiadau a awgrymwyd yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

<u>Materion a godwyd:</u>

- Yn dilyn Covid a Brexit, siopau yn cau, ddim rhai newydd yn agor nodir ei fod yn bwysig bod yn hyblyg efo busnesau bach at y dyfodol. Posibilrwydd o broblemau mawr yn dilyn Brexit

- Hapus efo'r CCCA ond nodi fod llawer o siopau yn cau, felly mi fydd angen meddwl am hyn at y dyfodol.

Ymateb:

- Nodwyd y sylwadau.

**Penderfyniad**

**Cymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r sylwadau am y Canllaw Cynllunio Atodol a mabwysiadu'r Canllaw Newid Defnydd Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol, Safleoedd Cyflogaeth ac Unedau Manwerthu**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 10.30 y.b.

**CADEIRYDD**